**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 4 MAWRTH 2025 DRWY MICROSOFT TEAMS (09:30 – 11:00)**

**Aelodau'r Comisiwn a oedd yn bresennol:** Michael Imperato (Cadeirydd), Frank Cuthbert (Aelod), Dianne Bevan (Aelod), Bethan Price (Aelod), Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol) ac Andrew Blackmore (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees drwy MS Teams

**Cynrychiolydd TIAA a oedd yn bresennol:** Mike Collier drwy MS Teams

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru a oedd yn bresennol:** Sean Gaffney drwy MS Teams

**Swyddogion y Comisiwn a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni), David Burley (Pennaeth Busnes) a David Carr (Rheolwr Cyllid)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2024

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2024.

## 4. Materion a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod camau gweithredu wedi'u cymryd yng nghyswllt mwyafrif y materion a oedd yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

4.2 Nid oedd camau gweithredu wedi'u cymryd eto yng nghyswllt y materion a oedd yn weddill oherwydd yr oedi wrth benodi Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. **Cytunwyd** na fyddai angen cyfarfod llawn i drosglwyddo'r awenau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac y byddai'r broses yn cael ei chwblhau mewn cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (sy'n rhoi'r gorau i'w swydd), y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a fydd yn dechrau ar ei swydd). Yn y cyfarfod hwnnw, byddai'r dogfennau trosglwyddo yn cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd a byddai nodyn ffurfiol yn

cael ei wneud o'r cyfarfod. **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod yn cael ei drefnu cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl penodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd. **Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Ebrill 2025

**5. Adroddiad ynghylch Diogelwch TGCh a Data a Chytundeb Lefel Gwasanaeth Cymwysterau Cymru**

5.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

5.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad newydd ynghylch Diogelwch TGCh. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y bygythiadau diweddaraf a nodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a oedd fwyaf perthnasol i'r Comisiwn. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at y nifer gynyddol o negeseuon gwe-rwydo drwy ebost ac at effaith Deallusrwydd Artiffisial mwyfwy soffistigedig ar ymosodiadau seiber, a oedd yn golygu bod ymosodiadau o'r fath yn fwy niferus a'i bod yn anos eu hadnabod. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer yr achosion lle'r oedd y staff yn cael eu twyllo gan negeseuon gwe-rwydo drwy ebost yn parhau'n fach, a oedd yn newyddion cadarnhaol iawn.

5.3 Canolig oedd sgôr y Comisiwn o hyd ar gyfer cryfder a bregusrwydd o ran seiberddiogelwch er i ddiweddariad gael ei osod ar gyfer y cleient Zoom, a hynny oherwydd bod Microsoft yn wynebu problem debyg yn awr. Pan fyddai'r broblem honno gyda Microsoft wedi'i datrys, y disgwyl oedd mai Isel fyddai'r sgôr unwaith eto ar gyfer risg i fregusrwydd o ran seiberddiogelwch. Gofynnwyd sut y caiff y sgôr ar gyfer cryfder o ran seiberddiogelwch ei chyfrifo. Esboniodd Sean Gaffney ei bod yn cael ei darparu gan Microsoft, a oedd yn rhoi sgôr i'r Comisiwn gan ddefnyddio'r system a ddefnyddir i roi sgôr i sefydliadau eraill. Roedd modd, felly, cymharu sgôr y Comisiwn â sgorau sefydliadau eraill.

5.4 Roedd nifer y digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth yn parhau'n fach, ac nid adroddwyd ynghylch unrhyw ddigwyddiadau ers y diweddariad a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf. Yn ddiweddar, roedd y Comisiwn wedi llwyddo i gadw ei achrediad Lefel 1 IASME ar gyfer sicrwydd o ran seiberddiogelwch, ac roedd wrthi'n gweithio i gyrraedd Lefel 2 IASME yn 2026.

5.5 Holodd y Pwyllgor sut yr oedd Archwilio Cymru yn ymdrin â bygythiadau o ran seiberddiogelwch, a pha fath o sicrwydd yr oedd y sefydliad hwnnw'n ei gael. Atebodd Julie Rees gan ddweud y byddai'n holi tîm TG Archwilio Cymru ac yn cyflwyno adroddiad yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. **Gweithredu**: Archwilio Cymru **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2025

5.6 Cafodd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cymwysterau Cymru a'r Comisiwn ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth TG ei ystyried. Nodwyd nad oedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn gyfreithiol rwymol, a holodd y Pwyllgor a oedd hynny'n ddigonol o gofio cyfrifoldebau cynyddol y Comisiwn yng nghyswllt y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau o ran bod yn gyfrifol am gydymffurfio â rheolau sy'n ymwneud â phrosesu data.

5.7 Dywedodd Sean Gaffney mai'r dybiaeth oedd bod y trefniadau presennol yn fanteisiol i bawb a'u bod wedi'u cyflwyno yn wreiddiol oherwydd bod strategaeth TGCh y Comisiwn yn debyg i strategaeth Cymwysterau Cymru. Fodd bynnag, pe

bai'r strategaethau yn mynd i gyfeiriadau gwahanol yn y dyfodol, byddai angen adolygu'r trefniadau. Dywedodd mai dim ond sicrwydd ynghylch cyflenwyr newydd y gallai Cymwysterau Cymru ei roi, ac na allai ddarparu cymorth ar eu cyfer.

5.8 Dywedodd Shereen Williams y byddai'r Comisiwn mewn sefyllfa well i asesu'r gofynion ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau yn ystod y misoedd nesaf. Bernid y byddai angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried sefyllfa'r dyfodol ar sail darlun cliriach o'r gofynion newydd o ran TG ar gyfer sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau, ac asesu a oedd y trefniadau presennol ar gyfer cymorth TG yn ddigonol ynteu a oedd angen eu hymestyn. **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymdrin â'r mater hwn yn ei gyfarfod yn ystod yr haf, ac y byddai'r gofyniad hwn yn cael ei ychwanegu at y ddogfen drosglwyddo y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei rhoi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 17 Mawrth 2025

## 6. Archwilio Mewnol: Adroddiadau Archwilio Diwedd Blwyddyn ac Adroddiad Blynyddol 2024-25

6.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau archwilio mewnol a oedd yn ymdrin ag Adolygiadau Cymunedol a'r Prif Agweddau ar Reolaeth Ariannol. Roedd yr adroddiadau'n rhoi Sylweddol fel sgôr ar gyfer sicrwydd, ac nid oeddent yn cynnwys unrhyw argymhellion archwilio.

6.2 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn ymdrin â'r camau dilynol yng nghyswllt argymhellion archwilio y flwyddyn flaenorol. Roedd pedwar o'r pum argymhelliad wedi cael eu gweithredu ac roedd un yn weddill o hyd, ond adroddwyd bod disgwyl i'r argymhelliad hwnnw, sef y dylid adolygu Polisi Rheoli Risg y Comisiwn, gael ei weithredu yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mawrth.

6.3 Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol a barn yr archwilwyr mewnol, sef bod TIAA yn fodlon bod gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru brosesau rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risg, sicrhau rheolaeth a llywodraethu, yng nghyswllt y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.

6.4 Diolchodd y Pwyllgor i'r Ysgrifenyddiaeth am sicrhau canlyniad da yng nghyswllt y meysydd archwilio yr adroddwyd yn eu cylch, a oedd yn rhoi sicrwydd sylweddol i'r Pwyllgor ynghylch y mesurau rheoli sydd ar waith.

## 7. Tendr ar gyfer Gwasanaethau Archwilio Mewnol

7.1 Adroddodd David Burley mai'r dyddiad cau ar gyfer cael cynigion tendro am wasanaethau archwilio mewnol oedd 28 Chwefror 2025, a bod trefniadau'n cael eu hystyried er mwyn i fwrdd y tendr asesu'r cynigion.

7.2 Mynegodd Andrew Blackmore bryder am y ffaith nad oedd y Pwyllgor yn cael ei gynnwys ym mhroses yr ymarfer tendro ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol. Dywedodd y dylai gweithgor fod wedi'i benodi o'r dechrau'n deg, gydag amserlen ar gyfer yr ymarfer tendro. Dywedodd Shereen Williams fod y Comisiwn wedi dilyn y broses a ddefnyddir fel rheol ar gyfer ymarferion tendro, ac nad oedd yn ymwybodol o'r gofyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg chwarae rhan fwy amlwg yn y

broses. **Cytunwyd** y byddai angen ystyried y mater hwn ymhellach ar gyfer ymarferion tendro yn y dyfodol. Cynigir y dylid diweddaru cyfarwyddiadau'r ddesg gaffael fel eu bod yn cynnwys y gofynion ychwanegol hyn.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Ebrill 2025

7.3 **Cytunwyd** y byddai Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn aelod o fwrdd y tendr ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol.
**Gweithredu**: Pennaeth Busnes **Erbyn**: 15 Ebrill 2025

## 8. Cynllun Archwilio Allanol 2025

8.1 Esboniodd Julie Rees fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2025 yn egluro'r gwaith arfaethedig ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2024-25. Roedd yr adroddiad yn egluro lefel perthnasedd ar gyfer camddatganiadau yn y cyfrifon, sef £23,600, er y gallai'r ffigur hwnnw godi'n dibynnu ar y cyfrifon.

8.2 Roedd yr adroddiad yn nodi'r risgiau archwilio ariannol mwyaf sylweddol a allai arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon. Roedd y risgiau hynny fel a ganlyn:

- Y risg bod y tîm rheoli'n diystyru mesurau rheoli, a oedd fel rheol yn cael ei chynnwys ym mhob archwiliad.
- Cydnabyddiaeth ariannol a phartïon cysylltiedig ar gyfer Aelodau'r Comisiwn, oherwydd nifer y penodiadau newydd yn ystod y flwyddyn.
- Y gyflogres, oherwydd y system fewnol newydd ar gyfer y gyflogres, a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn.
- Newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar y Comisiwn, oherwydd y cynnydd mewn cyfrifoldebau.
- Cyfrifyddu yng nghyswllt y brydles, oherwydd y symud i leoliad newydd yn ystod y flwyddyn.

8.3 Disgwylid y byddai'r gwaith archwilio yn cael ei gyflawni naill ai ym mis Mehefin neu ym mis Gorffennaf 2025. Nodwyd y byddai'r ffi archwilio 32% yn uwch o'i chymharu â'r ffi ar gyfer 2024, oherwydd y risgiau archwilio ychwanegol a nodwyd a oedd yn golygu y byddai angen gwneud mwy o waith archwilio. Fodd bynnag, rhoddodd Julie Rees sicrwydd i'r Pwyllgor mai dim ond am yr amser gwirioneddol y byddai'n ei gymryd i gynnal yr archwiliad y byddai tâl yn cael ei godi.

8.4 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2025.

## 9. Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2024-25

9.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad cwblhau ymarfer hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan yr Aelodau yn cadarnhau bod y Pwyllgor yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r dangosyddion arfer da a oedd yn yr holiadur.

9.2 Cytunwyd y byddai angen adolygu a diweddaru'r cwestiynau hunanasesu fel eu bod yn adlewyrchu'n well y ffaith bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei sefydlu a bod Cadeirydd annibynnol yn cael ei benodi i'r Pwyllgor hwnnw.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Medi 2025

**10. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2024-25**

10.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ond y byddai angen iddo gael ei ddiweddaru ar ôl penodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn gwneud y newidiadau angenrheidiol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Ebrill 2025

**11. Datganiad Llywodraethiant Drafft 2024-25**

11.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Llywodraethiant Drafft 2024-25.

11.2 Cynigiodd y Pwyllgor y dylai Datganiad Llywodraethiant 2024-25 gael ei fabwysiadu er mwyn i'r Comisiwn ei gymeradwyo.

**12. Platfform Gwybodaeth am Etholiadau**

12.1 Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau. Dywedodd Shereen Williams wrth y Pwyllgor y byddai cyfarfod cyntaf y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael ei gynnal ar 1 Ebrill 2025 gyda'r Swyddogion Canlyniadau presennol.

12.2 Adroddwyd bod astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y Platfform yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gan ymgynghorydd. **Cytunwyd** y byddai adroddiad terfynol yr astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei anfon at Aelodau Annibynnol y Pwyllgor cyn gynted ag y byddai ar gael.
**Gweithredu:** Prif Weithredwr **Erbyn:** 31 Mai 2025

**13. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ynghylch Cynnydd**

13.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion archwilio mewnol a oedd yn weddill, gan gynnwys y rhai a oedd wedi cael eu gweithredu ers yr adroddiad blaenorol.

**14. Archwilio Mewnol – Cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang**

14.1 Nododd y Pwyllgor Adroddiad TIAA, sef Crynodeb o Sicrwydd ynghylch Rheolaeth Fewnol yng nghyswllt archwilio mewnol, a manylion y modd y mae TIAA yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

**15. Asesiad Archwilio Mewnol – Holiadur Blynyddol 2024-25**

15.1 Nododd y Pwyllgor holiadur yr asesiad archwilio mewnol, yr oedd disgwyl iddo gael ei ddosbarthu i'r Aelodau er mwyn iddynt ei lenwi. Nodwyd y byddai canlyniadau'r asesiad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ystod haf 2025.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Mawrth 2025

## 16. Gwirio Asedau Sefydlog 2024-25

16.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch ymarfer gwirio asedau sefydlog 2024-25 a'r canlyniad, sef bod yr asedau i gyd wedi'u nodi a bod cyfrif wedi'i roi amdanynt i gyd.

## 17. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

17.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion am yr adroddiad ynghylch y gyllideb a oedd wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn ar 29 Ionawr 2025.

## 18. Adroddiad ynghylch Rheoli Risg

18.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn ymdrin â'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg weithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

## 19. Cofrestr Risg y Comisiwn ynghylch Pensiynau

19.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn ymdrin â'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud i gofrestr risg y Comisiwn ynghylch pensiynau ers yr adroddiad diwethaf.

## 20. Cofrestr Risg y Comisiwn ynghylch TGCh

20.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn ymdrin â'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud i gofrestr risg y Comisiwn ynghylch TGCh ers yr adroddiad diwethaf.

## 21. Adroddiadau Archwilio Cymru

21.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Archwilio Cymru, a oedd yn rhoi manylion yr adroddiadau a gyhoeddwyd ganddo'n ddiweddar.

## 22. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

22.1 Nododd y Pwyllgor fod yna ddau achos, yn ystod 2024-25 hyd yma, lle'r oedd y Comisiwn ac Aelod wedi cael cynnig rhoddion a lletygarwch yr amcangyfrifid eu bod yn werth £210. Roedd y cynigion wedi'u derbyn.

22.2 Nodwyd mai potel fach iawn o alcohol gan gyflenwr oedd un o'r rhoddion, ac na fyddai ei hanfon yn ôl wedi bod yn gost-effeithiol. Adroddwyd bod y Prif Weithredwr wedi cysylltu â'r cyflenwr ac wedi rhoi gwybod iddo na ddylid anfon alcohol yn rhodd i'r Comisiwn.

## 23. Cwynion

23.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd yr un gŵyn wedi dod i law'r Comisiwn ers yr adroddiad diwethaf.

**24. Adroddiad ynghylch Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

24.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd yr un achos o chwythu'r chwiban neu o dwyll wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf.

**25. Adroddiad ynghylch Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

25.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau am wybodaeth a oedd wedi dod i law'r Comisiwn rhwng mis Ebrill 2024 a 23 Chwefror 2025, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**26. Unrhyw Fater Arall**

26.1 Diolchodd y Pwyllgor i Michael Imperato, sy'n rhoi'r gorau i'w swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, am ei gyfraniadau i'r Pwyllgor ac am sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n effeithiol. Roedd Michael Imperato am gofnodi ei werthfawrogiad o waith a chymorth yr Ysgrifenyddiaeth tra bu'n Gadeirydd y Pwyllgor ac am gofnodi ei ddiolch i'r Aelodau, y timau archwilio mewnol ac allanol, a chynrychiolwyr Cymwysterau Cymru a oedd wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd.

26.2 Nid oedd unrhyw fater arall.

[***Yn dilyn y prif gyfarfod, cafwyd cyfarfod caeëdig rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r archwilwyr allanol a mewnol***]